

Henaduriaeth

Cynhelir Henaduriaeth Arfon yng Nghapel y Groes, Penygroes am 3.00 a 6.30 o'r gloch ddydd Mawrth, Hydref 18. Oedfa ordeinio blaenoriaid fydd oedfa' hwyr.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Maureen Thomas, Plas Ogwen, Bethesda (gynt o Plas Gwyn Lodge a 3 Gerddi Penlon, Bangor) yng nghapel Carmel, Rachub ddydd Llun diwethaf dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Helen Williams oedd yr organydd.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 9: Cynhelir oedfa Ddiolchgarwch am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Hydref 9: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch (oedfa MOLI) gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 9: Ni fydd oedfa. Cynhelir yr oedfa nesaf am 2.00 o'r

gloch, ddydd Sul, Hydref 16.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Hydref 6: Bwrlwm am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 9: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac yna am 2.00 o'r gloch Oedfa Deuluol y Diolchgarwch. Bydd y Gweinidog yn cymryd rhan yn yr oedfa hon.

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 3: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 7: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 9: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac am 5.00 o'r gloch cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Hydref 3: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 2

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 9

5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

Hydref 16

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 2

10.00 a.m. a 5.00 p.m. - Andrew Setttree
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Hydref 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - YsgolSul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI (Y Gweinidog)

Hydref 16

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - YsgolSul
5.00 p.m. - Mr Richard Ll Jones



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 699: Dydd Sul, 02 Hydref, 2016

Y llun cyflawn

diwrnod newydd, a'i ddiwedd – ar ddechrau dydd – yn ddirgelwch ac yn ansicr. Ac wrth geisio ymdopi â'r cyfan, y cysur mawr sydd gennym yw y bydd Duw gyda ni, beth bynnag a wynebwn.

Wyddom ni ddim chwaith beth fydd dyfodol yr Eglwys Gristnogol yn ein gwlad. Ni ddatgelwyd i ni sut bydd y llun yn datblygu. Nid yw'r ganfas yn wag heddiw, wrth reswm, gan mai gwaith sy'n para o oes i oes yw gwaith yr Efengyl. Mae'r Eglwys wrth ei gwaith yn addoli ac yn cenhadu ac yn gweithredu cariad Crist. Ond heb ei orffen y mae'r llun; a gwyddom trwy ffydd mai Duw fydd yn peintio'r llun hwnnw. Yn ei ddwylo diogel ef y mae'r gwaith, a diolchwn am gael credu y bydd yr Arglwydd Dduw yn gofalu am ei Eglwys i bob yfory.

A wyddom ni ddim beth a ddigwydd yn y byd, gyda'i amryfal broblemau dyrys. Mae dyfodol y byd a'i bobl yn aneglur i ni ond yn hysbys i'r Duw Mawr sy'n rheoli dros y cyfan. Yng nghanol dryswch byd, diolch am y sicrwydd sydd gennym fod Duw yn teyrnasu ac yn cyflawni ei fwiadau doeth ar gyfer y byd a'i bobl. Iddo Ef, mae'r llun eisoes yn gyflawn ac yn amlwg, er mor aneglur yr ymddengys i ni.

Mentrwn ymlaen mewn ffydd, gan gredu fod ein Tad Nefol yn gwarchod trosom, yn y gobaith y bydd y llun ryw ddydd yn amlwg i ninnau.

Ar raglen 'Stiwdio' ar Radio Cymru yr wythnos ddiwethaf, ailddarlledwyd darn o gyfweiliad a wnaed ryw ddwy flynedd yn ôl â'r arlunydd o Sir Fôn, Wilf Roberts, a fu farw ganol mis Medi. Soniodd amdano'i hun yn mynd ati i wneud llun newydd. Y peth cyntaf y byddai'n ei wneud fyddai taro rhyw fath o liw ar y ganfas 'i dorri'r gwyn', cyn dechrau peintio a 'gadael i'r paent gymryd drosodd'. Ac yn aml iawn, meddai, byddai'r llun 'yn dra gwahanol i be wnes i gychwyn ag o'.

Gallaf ddychmygu sawl llenor yn dweud peth tebyg. Gall stori neu gerdd ddatblygu wrth i'r awdur sgwennu, nes bod y gwaith gorffenedig yn aml yn wahanol i'r hyn a fwiadwyd yn wreiddiol. Mae'r cymeriadau neu'r themau yn medru mynd â'r awdur i gyfeiriad annisgwyl.

Rhaid i mi gydnabod fod hynny'n wir ar brydiau hefyd am y pytia hyn yn *Gronyn*. Nid wyf finnau chwaith, wrth gychwyn sgwennu, bob amser yn gwbl siŵr i ba gyfeiriad y byddaf yn mynd.

Ac onid yw'r un peth yn wir am fywyd pob un ohonom? Wyddom ni ddim sut all pethau droi o ddydd i ddydd ac o awr i awr. Ar ddechrau dydd, gall fod gennym gynlluniau a bwriadau o bob math, ond wrth i'r oriau fynd heibio daw'n amlwg mai llwybr gwahanol sy'n agor o'n blaen, a phobl wahanol a digwyddiadau gwahanol – helyntion gwahanol a syrpreisys gwahanol – sy'n ein haros. Dalen newydd, wag yw pob

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



BEIBL BYW

'Gwyn ei fyd y sawl y madd-euwyd ei drosedd, ac y cudd-iwyd ei bechod. Gwyn ei fyd y sawl nad yw'r ARGLWYDD yn cyfrif ei fai yn ei erbyn, ac nad oes dichell yn ei ysbryd ... Yna bu i mi gydnabod fy mhechod wrthyt, a pheidio â chuddio fy nrygioni: dywedais, "Yr wyf yn cyffesu fy mhechodau i'r ARGLWYDD"; a bu i tithau faddau euogrydd fy mhechod' (Salm 32:1-2, 5).

Heddiw

Andrew Settatee fydd yn arwain y ddwy oedfa yn Capel Coch heddiw. Diolch iddo am ei wasanaeth unwaith eto. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Gweinyddir y Cymundeb yn yr oedfa hon.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Brian Wright, Cyffordd Llandudno. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

Capel Coch

Cynhelir cyfarfod i aelodau Capel Coch a Nant Padarn yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Hydref 5 i drafod y datblygiadau nesaf o ran y festri.

Mae angen gwneud rhai gwelliannau, a gwahoddwn bawb o aelodau Capel Coch a Nant Padarn i ymuno â ni i drafod yr hyn sydd i'w wneud.

Mae'r swyddogion am roi cyfle i bawb gyfrannu at y drafodaeth ac i fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a threfnu'r hyn sydd i'w wneud.

Y bwriad yw gwneud cymaint â phosibl er mwyn sicrhau fod yr adeilad mor hwylus ac addas â phosibl ar gyfer gwaith ac addoliad yr eglwysi.

Os medrwch, dowch i'r cyfarfod nos Fercher. Edrychwn ymlaen at eich gweld ac at ddechrau cynllunio.

Cinio

Ar ôl yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul, Hydref 23, bydd Cinio Cawl i godi arian at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni i gael cinio efo'n gilydd a chefnogi gwaith Ward Alaw yr un pryd.

Rhowch wybod i Falmai os gwelwch yn dda os ydych yn bwriadu aros i ginio.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug nos Lun, Medi 26. Llywyddwyd gan y Parchg Marcus Robinson. Diolch i bawb a ddaeth yno.

Cyflwynwyd gwybodaeth am sefyllfa ariannol y Cynllun ynghyd ag adroddiad am y gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ddiwedd blwyddyn arall o waith Efe, diolch i Andrew Settatee am ei holl waith. Diolch iddo am ei ymroddiad a'i holl ymdrechion i ddatblygu'r gwaith ac arwain y genhadaeth hon ym mhentrefi dalgylch Eco'r Wyddfa.

Fel y gwyddoch os gwelsoch yr hyn a adroddwyd yn Gronyn dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, mae Andrew yn gwasanaethu Trobwynt (yn ardal Llŷn ac Eifionydd) yn ogystal Efe ar hyn o bryd, a dymunwn bob bendith a mwynhad iddo yn y gwaith yn y fan honno ac yma yn ein plith ni.

Diolch hefyd i'r Trysorydd, Clive James, a'r Ysgrifennydd, Susan Williams am eu holl waith hwythau, ac i Ymddiriedolwyr y Cynllun am eu gwaith.

Ebeneser

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Capel Ebeneser nos Fawrth, Medi 27.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe am 10.30 o'r gloch fore fory, Hydref 3, yn 'Cartref', Caeathro. Croeso cynnes i bwy bynnag a fynno i ymuno â ni.

CIC

Nos Wener, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor newydd CIC yn Capel Coch a chafwyd amser da gyda gemau a chwis a sgwrs dan arweiniad Dafydd, Gwenno ac Andrew.

Yn y cwis, cafwyd cwestiynau o bob math am doiledau o bob dim! Ond roedd yna reswm da dros hynny! Rydym am fynd ati y tymor hwn i godi arian er mwyn cymryd rhan yng nghynllun 'Gefeillio Toiled' yr elusen *Tearfund*. Trwy'r cynllun hwn, mae cyfle i eglwysi ac unigolion hyd yn oed dalu am doiled glân i gymunedau sydd heb doiled o'r fath ar hyn o bryd. Mae cannoedd os nad miloedd o doiledau wedi eu darparu trwy'r cynllun hwn erbyn hyn.

Roedd gan bobl ifanc CIC syniadau am sut i godi arian, a byddwn yn penderfynu yn y cyfarfod nesaf beth yn union i'w wneud.

Agor y Llyfr

Roedd tîm 'Agor y Llyfr' Deiniolen yn ail afael yn y gwaith yn Ysgol Gwaun Gynfi fore Gwener, Medi 30. Y tro hwn, stori Joseff yn yr Aifft oedd yn cael ei chyflwyno i'r plant. Cafwyd croeso cynnes yn yr ysgol unwaith eto.

Mi fyddem yn falch iawn o gael aelodau newydd i'r tîm. Os ydych eisiau gwybod rhagor holwch y Gweinidog.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Pwyllgor Gwaith y Cyfarfod Chwarter yn festri Talybont fore Mawrth yr wythnos hon.

Bydd y Cyfarfod Chwarter yn Eglwys Unedig Llandudno am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Hydref 26 pan geir pregeth gan y Parchg Wibur Lloyd Roberts.